

DATBLYGU CYNLLUN GWEITHLU IECHYD MEDDWL STRATEGOL AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

Ymateb Helplu Cymru i'r ymgynghoriad

1. Mae Helplu Cymru yn gweithio gyda Chefnogi Trydydd Sector Cymru, Llywodraeth Cymru ac eraill i ddatblygu potensial gwirfoddoli yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r gwaith yn cael ei drefnu gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'i gyllido gan Lywodraeth Cymru.
2. Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r aelod-fudiad cenedlaethol ar gyfer y sector gwirfoddol yng Nghymru. Ein diben yw galluogi mudiadau gwirfoddol i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.
3. Cynigir rhai sylwadau isod, o ran rhai o themâu'r ymgynghoriad. Mae dolenni i astudiaethau achos wedi'u cynnwys er mwyn dangos rôl gwirfoddoli mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl.

Cyflenwi a Siapio'r Gweithlu

4. Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth fod gan wirfoddolwyr rôl hanfodol i'w chwarae o fewn gwasanaethau iechyd meddwl a'r angen i hyn gael ei fesur a'i integreiddio mewn cynlluniau gweithlu hirdymor – fel y mynegwyd o dan Gam Gweithredu 6:

Comisiynu rhaglen waith i nodi a diffinio rolau gwirfoddoli effeithiol a fydd yn helpu i lywio cynllunio'r gweithlu, addysg a hyfforddiant.'

Gweithlu Ymgysylltiedig, Brwdfrydig ac Iach

5. Gall gwirfoddolwyr (sy'n cael eu cynnwys, eu hyfforddi a'u cynorthwyo'n briodol ac sy'n cael yr adnoddau priodol) effeithio'n gadarnhaol ar lesiant y gweithlu iechyd meddwl a delir.
6. Nid yw gwirfoddolwyr yno i lenwi bylchau yn y gweithlu, ond gall eu cynnwys, er enghraifft, mewn tîm staff/gwirfoddolwyr cymysg, gael effaith sylweddol ar lesiant a morâl staff, gan gynnwys galluogi effeithlonrwydd system. Gall gwasanaethau gwirfoddolwyr leihau'r pwysau ar staff a delir drwy fynd i'r afael â'r anghenion iechyd meddwl mwy ataliol a lefel isel, fel yr angen am wybodaeth, cwmnïaeth neu gymorth emosiynol, gan alluogi mwy o staff i ganolbwyntio ar feysydd lle y mae'n rhaid cael sgiliau proffesiynol.

Astudiaeth achos: y Gwasanaeth 'Restraint debrief'

7. Mae'r gwasanaeth 'Restraint Debrief' yn rhoi llais i gleifion sy'n dioddef anhwylder meddwl difrifol drwy sesiwn ôl-drafod â gwirfoddolwr annibynnol, gan alluogi llais y claf i ddylanwadu ar ei ofal ac, o bosibl, lleihau ataliaethau yn y dyfodol.
8. [Mae'r canllawiau gwasanaeth hyn](#) (Saesneg yn unig), sy'n seiliedig ar werthusiad o astudiaeth beilot gan Helplu yn Ymddiriedolaeth GIG Camden ac Islington, yn ceisio annog pobl i fabwysiadu dulliau gweithredu tebyg mewn mannau eraill.

Astudiaeth achos: Canolfannau Cymunedol Fedra' i

9. Mae gwirfoddolwyr yn cefnogi gwasanaeth iechyd meddwl ar draws 11 canolfan gymunedol yng Ngogledd Cymru. Mae gan rai brofiad byw o broblemau iechyd meddwl, felly maen nhw mewn sefyllfa ddelfrydol i gynnig cymorth i eraill ag anghenion lefel isel.
10. Gall unigolion 'alw heibio' heb apwyntiad nac atgyfeiriad, i gael cymorth a chynghor ar amrediad o faterion, gan gynnwys perthynas yn chwalu, problemau cyffuriau ac alcohol, anawsterau cyflogaeth, profedigaeth, tai ac unigrwydd.
11. Caiff y gwasanaethau yn y lleoliadau gwahanol eu darparu gan fudiadau gwahanol o'r sector gwirfoddol. Er bod natur ac amrywiaeth y gwasanaethau yn amrywio o un ganolfan i'r llall, maen nhw'n cael eu comisiynu gan y bwrdd iechyd, yn rhannu'r [un wefan](#) a phob un ohonynt yn cynnig croeso cynnes, clust i wrando a chymorth ymarferol, gan leddfu'r pwysau ar wasanaethau aciwt.

Atyniad a Recriwtio

12. Mae gwirfoddoli yn rhoi profiad i bobl o amgylchedd gwaith penodol a gall gynnig cyfleoedd i edrych ar ddiddordebau a galluoedd personol a allai ddylanwadu ar ddewisiadau gyrfa.

13. Serch cydnabod bod pobl yn gwirfoddoli am gymhelliannau amrywiol, gellir datblygu llwybrau mwy strwythuredig sydd, ochr yn ochr â gweithgareddau gwirfoddoli, yn cynnig cyfleoedd i sgwrsio, myfyrio a chael gwybodaeth am ddatblygu gyrfa.
14. Mae'r dull gweithredu [Gwirfoddoli i Yrfa](#) hwn (Saesneg yn unig) yn cael ei beilota gyda Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd ledled Cymru a Lloegr, gyda chymorth Helplu.

Modelau Gweithlu Di-dor

15. Mae cyfeillio, mentora, eirioli, cwnsela a mathau eraill o gymorth un i un a wneir gan wirfoddolwyr yn y gymuned yn rhan o sbectrwm eang o ymyrraeth sy'n hybu iechyd meddwl cadarnhaol. Bydd cysylltiadau clir a chydberthnasau gweithio da rhwng gwasanaethau gwirfoddol a phroffesiynol yn galluogi gwirfoddolwyr i gael eu hyfforddi a'u cefnogi'n effeithiol ac yn meithrin gwasanaethau mwy di-dor, drwy drawsgyfeirio priodol.

Astudiaeth achos: Gwirfoddoli yn diwallu anghenion diwylliannol amrywiol

16. Mae [Gwasanaethau Gofal Cymunedol a Lles Caerdydd](#) (CAAWS) yn cynnig cymorth hyblyg a phwrpasol drwy ei wasanaethau cwnsela, cyfeillio ac eiriol, a gyflwynir gan wirfoddolwyr hyfforddedig mewn amrediad eang o ieithoedd lleiafrifol.

Astudiaeth achos: Cadw mewn cysylltiad â phobl hŷn sy'n teimlo'n ynysig

17. Mae mudiadau gwirfoddol a chymunedol mewn sefyllfa dda i gadw mewn cysylltiad â'r rheini sy'n unig, yn teimlo'n ynysig ac mewn perygl o ddiodef o orbryder ac iselder. Mae [Ailgyssylltu 50+](#) yn derbyn atgyfeiriadau ac yn cynorthwyo pobl hŷn sy'n agored i niwed ym Merthyr, drwy fentora, rhoi cymorth dros y ffôn a darparu gweithgareddau cymdeithasol.

Addysg a dysgu rhagorol

18. Noda'r cynllun drafft bod angen sicrhau bod addysg a hyfforddiant ar gael i bartneriaid trydydd sector ac asiantaethau eraill. Dylid ehangu hyn i gynnwys gwirfoddolwyr.
19. Mae'r Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus yn [rhaglen beilot o hyfforddiant sefydlu iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd Gorllewin Cymru](#) i garfan gymysg o ddysgwyr – rhai mewn cyflogaeth a rhai nad ydynt mewn cyflogaeth eto – gan gynnwys gofalwyr ifanc.

20. Byddai'n fuddiol edrych ar sut gellid ehangu cwrs o'r fath yn ehangach i wirfoddolwyr, efallai mewn fersiwn fwy syml neu wedi'i haddasu, er mwyn hyrwyddo safonau gofal cyson, gofal integredig a chyd-ymddiriedaeth rhwng sectorau a galluogi llwybrau gyrfa.

Fiona Liddell

Rheolwr Helplu Cymru, CGGC

Mawrth 2022